**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**
**DYDD MAWRTH, 11 HYDREF 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Hybrid Meeting Dydd Mawrth, 11 Hydref 2022

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Tina Claydon ar ran y Cynghorydd Richard Lloyd, a'r Cynghorydd Teresa Carberry ar ran y Cynghorydd Mel Buckley

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Gludiant Ranbarthol)

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd, Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi, Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant), Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio, Rheolwr Cydymffurfedd a Hyfforddiant, Rheolwr Menter ac Adfywio, Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol

Hedd Vaughan Evans, David Matthews a Henry Aron, Uchelgais Gogledd Cymru (ar gyfer cofnod 20).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 17. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorwyr Mike Peers, Tina Claydon, Chris Bithell ac Ian Hodge gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag eitem rhif 10 ar y rhaglen: Adfywio Canol Trefi.

Datganodd y Cynghorydd Teresa Carberry gysylltiad personol ag eitem rhif 4 ar y rhaglen oherwydd ei bod yn rhan o brosiect ailgylchu gwisgoedd ysgol.

## 18. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 5 Gorffennaf 2022, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Mike Peers ac Ian Hodge.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 19. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a'r adroddiad Olrhain Camau Gweithredu i'w hystyried. Tynnodd sylw at yr eitemau a oedd wedi'u trefnu i gael eu hystyried yn y dyfodol a gwahoddodd yr Aelodau i godi unrhyw eitemau eraill yr oeddent yn dymuno eu cynnwys ar y Rhaglen.

Gan gyfeirio at adran 1.07 yn yr adroddiad, awgrymodd y Cynghorydd Mike Peers y dylai'r eitem ar Barcio y Tu Allan i Ysgolion gael ei hystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi. Cytunwyd y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant. Gofynnodd y Cynghorydd Peers hefyd am gael cynnwys eitemau ar Wasanaethau Priffyrdd, Draenio a Phrofedigaeth ar y Rhaglen.

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) y byddai'n rhaid symud yr eitem ar y Strategaeth Toiledau Lleol, a oedd i fod i gael ei hystyried yn y cyfarfod ar 15 Tachwedd, i'r cyfarfod ar 10 Ionawr 2023.

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y gellid cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am Glefyd Coed Ynn i'r cyfarfod ar 15 Tachwedd.

Adroddodd yr Hwylusydd ar yr eitemau oedd yn weddill yn yr adroddiad Olrhain Camau Gweithredu a rhoddodd ddiweddariad ar waith ar y gweill. Rhoddodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) ddiweddariad cryno ar gynnydd yr Adolygiad o Rwydweithiau Bysiau. Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio ddiweddariad ar gynnydd mewn perthynas â 'Gwirio Eich Diwrnod Casglu'.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Mike Peers ac Ian Hodge.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn amodol ar y newidiadau uchod;

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 20. CYFLWYNIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU AC ADRODDIAD CHWARTEROL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) yr adroddiad a darparodd wybodaeth gefndir am Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Rhoddodd Hedd Vaughan Evans, David Matthews a Henry Aron, Uchelgais Gogledd Cymru, gyflwyniad ar y cyd ar Fargen Dwf Gogledd Cymru a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Bargen Dwf Gogledd Cymru - Ch1 a diweddariad diwedd blwyddyn
- Ein gweledigaeth
- Egwyddorion

- Amcanion
- Buddsoddiad
- Ein strwythur
- Cyflawniadau 2021-2022
- 5 Rhaglen:
    - Bwyd Amaeth a Thwristiaeth
    - Cysylltedd Digidol
    - Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel
    - Ynni Carbon Isel
    - Tir ac Eiddo

Croesawodd y Cynghorydd David Healey y prosiect a siaradodd o blaid y buddion y gellid eu cyflawni drwy greu cyfleoedd cyflogaeth, sgiliau ac amodau carbon niwtral.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at y dyhead ar dudalen 36 yr adroddiad, sef bod Gogledd Cymru mewn sefyllfa dda i ddod yn arweinydd byd-eang a gofynnodd a oedd y cynllun llanw yn cael ei gyflawni ac os oedd prosiectau eraill ar y gweill, gan nodi ffermydd gwynt a solar fel enghreifftiau. Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers hefyd at y datblygiad lleol ar dir maes glas ym Manor Lane, Brychdyn, a oedd wedi'i leoli ger Airbus ac yn agos at Barth Menter Glannau Dyfrdwy a gofynnodd pa fath o waith fyddai'n cael ei greu ar y safle.

Mewn ymateb i'r sylwadau a'r cwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Peers, cyfeiriodd Henry Aron at y gwaith gyda Llywodraeth Cymru ar Strategaeth Ynni Rhanbarthol Gogledd Cymru a oedd yn rhoi golwg gyfannol ar dechnolegau a mathau eraill o ynni a fyddai angen eu datblygu ar draws Gogledd Cymru. Rhoddodd ddiweddariad ar gynnydd y prosiect llanw hefyd. Darparodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad lleol yn ymwneud â safle Warren Hall.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorwyr Dan Rose a Mike Peers.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22.

## 21. CANLYNIAD YR ARCHWILIAD HYFFORDDIANT STATUDOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) adroddiad i roi gwybod i Craffu am ganlyniad yr archwiliad mewnol hyfforddiant statudol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y camau y cytunwyd arnynt. Darparodd wybodaeth gefndir a gwahoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio a'r Rheolwr Cydymffurfedd a Hyfforddiant i roi cyflwyniad ar y cyd a oedd yn trafod y prif bwyntiau canlynol:

- gofynion hyfforddiant statudol
- Trosolwg o'r Tîm Cydymffurfedd a Hyfforddiant
- Cyfleuster Hyfforddiant y Cyngor
- Archwiliad Hyfforddiant Statudol
- Archwiliad Hyfforddiant Statudol - canlyniad

- y camau a gytunwyd arnynt a diweddariadau

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adran 1.05 yn yr adroddiad a'r 2,400 o ddigwyddiadau hyfforddiant a gofynnodd am eglurder ynglŷn â beth yn union oedd yn cael ei ystyried yn 'ddigwyddiad'. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio esboniad a dywedodd y byddai un person yn mynychu un cwrs yn cyfrif fel digwyddiad hyfforddi.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at y camau allweddol a oedd wedi cael eu cytuno a gofynnodd a fyddai'r dangosydd perfformiad yn symud o oren-coch i wyrdd o ganlyniad, neu a oedd angen ail archwilio i gadarnhau'r camau gweithredu. Gofynnodd gwestiynau hefyd ynglŷn â sut oedd gweithwyr cerbydau gwastraff yn cael eu hyfforddi. Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at dudalen 97 yn yr adroddiad a gofynnodd gwestiynau pellach ynglŷn â'r dyddiad cwblhau ar gyfer newid fflyd yr awdurdod i gerbydau trydan a thanwydd amgen (hydrogen ac ati), a cheisiodd eglurder ar y dasg 'Datblygu rhwydwaith gwefru ceir trydan y Sir'. Ymatebodd y Prif Swyddog i'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd a gwahoddodd yr Aelodau i ymweld â'r cyfleuster hyfforddiant os oeddent yn dymuno gwneud hynny.

Cynigiodd y Cynghorydd Ian Hodge yr argymhellion yn yr adroddiad ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Roy Wakelam.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Cefnogi gwaith Tîm Cydymffurfedd a Hyfforddiant y Gwasanaethau Stryd a Chludiant; a

(b) Chefnogi'r camau gweithredu a gymerwyd a'r rheolyddion a roddwyd ar waith mewn ymateb i argymhellion archwilio mewnol.

## 22. <u>ADOLYGU AMSERLEN CYNLLUN Y CYNGOR 2022/23</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad i adolygu'r amserlenni ar gyfer Cynllun y Cyngor 2022/23 yn dilyn cais gan y Cyngor Sir ym mis Gorffennaf. Darparodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod yr amlinelliad o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2022/23, yn cynnwys y chwe thema, eu blaenoriaethau a chamau gweithredu, wedi'u hatodi i'r adroddiad. Yng nghyfarfod y Cyngor Sir ym mis Gorffennaf, gofynnwyd bod yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn adolygu'r amserlenni gweithredu a rhai o'r diffiniadau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at y cwestiynau a oedd wedi'u codi ar dudalen 97 yr adroddiad ynglŷn â'r dyddiad cwblhau ar gyfer newid fflyd yr Awdurdod i gerbydau trydan a thanwydd amgen (hydrogen ac ati) a gofynnodd a oedd y dasg 'Datblygu rhwydwaith gwefru ceir trydan y Sir' a Chyflawni targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru wrthi'n cael eu datblygu neu'n weithredol. Darparodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) wybodaeth bellach wrth ymateb i'r cwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Peers. Gofynnodd y Cynghorydd Peers a fyddai'n bosib rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd y broses i newid fflyd yr Awdurdod i gerbydau trydan a thanwydd amgen, mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorwyr Mike Peers ac Ian Hodge.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo amserlenni Rhan 1 Cynllun y Cyngor sydd wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru.

## 23. CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar y blaenoriaethau, yr is-flaenoriaethau a'r amcanion lles ar gyfer Cynllun y Cyngor 2023-28. Darparodd wybodaeth gefndir ac eglurodd fod 'uwch-strwythur' y Cynllun yn cynnwys 7 blaenoriaeth ac is-flaenoriaethau perthnasol. Roedd y 7 blaenoriaeth yn cymryd golwg hir dymor ar adfer, prosiectau ac uchelgeisiau dros y pum mlynedd nesaf. Roedd y blaenoriaethau a'r is-flaenoriaethau a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor ynghlwm wrth yr adroddiad. Byddai Rhan 2 o Gynllun y Cyngor yn cael ei hystyried gan yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu i sicrhau darpariaeth lawn o Ran 1 o Gynllun y Cyngor 2023/28 a'i fesurau a'u targedau.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorwyr Ian Hodge a Teresa Carberry.

**PENDERFYNWYD:**

Cefnogi blaenoriaethau, is-flaenoriaethau ac amcanion lles arfaethedig Cynllun y Cyngor 2023-28, fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

## 24. PARC ARFORDIR SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol adroddiad i roi gwybodaeth ynglŷn â chynnydd y gwaith cwmpasu i sefydlu Parc Arfordir ac i gytuno ar yr argymhellion ar gyfer gweithredu. Darparodd wybodaeth gefndir ac eglurodd bod y cydsyniad o Barc Arfordir Sir y Fflint wedi cael ei ail-archwilio drwy gomisiynu astudiaeth gwmpasu a oedd yn adolygu astudiaethau achos a chynseiliau cyn dadansoddi'r manteision a'r cyfyngiadau. Awgrymodd yr astudiaeth olion parc arfordir posibl a chamau ar gyfer gweithredu. Byddai Parc Arfordir i Sir y Fflint yn rhoi ysgogiad a ffocws newydd i'r arfordir, gan godi proffil y blaendraeth a galluogi cymunedau a busnesau i weithio'n gynaliadwy ac yn arloesol i helpu i ddarparu ffyniant amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Tynnodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol sylw at y 4 dewis a amlinellwyd yn adran 1.07 yr adroddiad, y camau nesaf a'r amserlenni.

Siaradodd y Cynghorydd David Healey o blaid dewis 2.

Canmolodd y Cynghorydd Vicky Perfect waith y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol a'i dîm ar Lwybr yr Arfordir. Hefyd, diolchodd i Mike Taylor am atgyweirio amddiffynfeydd ar lwybr yr arfordir.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mike Peers at dudalen 130, paragraff 2.27 yr adroddiad, a gofynnodd a fyddai'n bosib cyflwyno adroddiad pellach mewn cyfarfod Pwyllgor yn y dyfodol i roi gwybodaeth am y cyfleusterau a fydd yn cael eu darparu yn y Parc Arfordir. Mynegodd y Cynghorydd Peers bryderon bod y goblygiadau ariannol o ddarparu Parc Arfordir Sir y Fflint yn anhysbys ar hyn o bryd, a dywedodd y byddai'r holl brosiectau yn destun ystyriaeth drylwyr o ystyried y bwlch yng nghyllideb y Cyngor ar hyn o bryd.

Ceisiodd y Cynghorydd Tina Claydon sicrwydd y byddai bywyd gwyllt yn cael ei ddiogelu yn y cynigion.

Soniodd y Cadeirydd am yr angen i uno'r llwybr rhwng Cei Connah a'r Fflint.

Ymatebodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol i'r sylwadau a'r cwestiynau a godwyd.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Roy Wakelam a Mike Peers.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi cynnwys yr astudiaeth gwmpasu a symud ymlaen â Pharc Arfordir Sir y Fflint fel endid anffurfiol, lleol;

(b) Dewis 2 oedd yr ôl troed a ffefrir ar gyfer y parc arfordir; a

(c) Bod y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol yn sefydlu Grŵp Llywio Parc Arfordir Sir y Fflint er mwyn symud ymlaen â'r camau gweithredu nesaf.

## 25. ADFYWIO CANOL TREFI

Cyflwynodd y Rheolwr Menter ac Adfywio wybodaeth gefndir ac adroddiad a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyd-destun strategol ar gyfer adfywio canol trefi a'r rhaglenni gwaith sydd yn weithredol ar hyn o bryd. Ar ben hynny, roedd yn darparu manylion am ddatblygiad Cynlluniau Lleoedd a'r camau gorfodi angenrheidiol i fynd i'r afael ag eiddo gwag yng nghanol trefi.

Gofynnodd y Cynghorydd Mike Peers os byddai adfywio canol trefi yn cynnwys ystyried yr uwchgynlluniau presennol neu a fyddai'r Cynlluniau Lleoedd yn disodli'r uwchgynlluniau. Cyfeiriodd hefyd at adran 1.14 yn yr adroddiad a gofynnodd pryd fyddai'r Cabinet yn cymeradwyo'r meini prawf i'w ddefnyddio i flaenoriaethu eiddo ar gyfer ymyrryd. Gofynnodd y Cynghorydd Peers a fyddai'n bosib darparu manylion ynglŷn â chyfranogiad Aelodau Lleol wrth greu Cynlluniau Lleoedd ac amserlenni. Soniodd y Cynghorydd Peers am y broblem o eiddo masnachol gwag yng nghanol trefi a dywedodd mai'r adborth a gafwyd oedd bod y ffioedd rhent yn rhy uchel, a gofynnodd a fyddai modd edrych ar hyn. Ymatebodd y Rheolwr Menter ac Adfywio i'r pwyntiau a wnaed.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Bithell at dudalen 179, adran 2.01 yn yr adroddiad, a gofynnodd a fyddai'r arian cyfatebol yn dod o berchnogaeth breifat o

eiddo neu gan y Cyngor. Soniodd y Cynghorydd Bithell am y bwlch yn y gyllideb i'w drafod gan y Cyngor. Wrth ymateb, eglurodd y Rheolwr Menter ac Adfywio y byddai angen i'r sector cyhoeddus ddarparu'r balans.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Mike Peers ac Ian Hodge.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r gofynion i ddatblygu Cynlluniau Lleoedd ar gyfer y 7 tref (Bwcle, Cei Connah, Y Fflint, Treffynnon, Yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton) yn Sir y Fflint, a chefnogi'r drefn y bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei gwblhau o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael; a

(b) Nodi'r gofyniad i fynd i'r adael ag eiddo gwag yng nghanol trefi drwy gamau gorfodi, a chefnogi'r meini prawf a'r dull a ddefnyddir.

## 26. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.28 pm)

..................................................

**Cadeirydd**